**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | **17.12.25** |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymgynghoriad ar system reoleiddio newydd gan gynnwys amodau cofrestru a chyllid – Hydref 2025** |

## Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| **Cyflwyniad**<br>At ei gilydd, rydym yn croesawu nod Medr i fod yn rheoleiddiwr cymesur ac yn seiliedig ar risg. Mae'r fframwaith rheoleiddio yn egluro disgwyliadau'n fuddiol, yn ogystal â nodi'n glir sut bydd Medr yn delio â diffyg cydymffurfio ac yn hyrwyddo gwelliant. Rydym yn falch o weld bod Medr wedi gweithio'n galed i ymateb i'r adborth o'r ymgynghoriad cynharach.<br><br>At ei gilydd, rydym yn teimlo bod ffocws cryf ar ddysgwyr, drwyddi draw. Efallai yr hoffai Medr ystyried sut gallai gryfhau'r ffocws ar ran gweithwyr addysg proffesiynol mewn agweddau ar draws y fframwaith rheoleiddio.<br><br>Er mwyn dod â mwy o eglurder, dylai Medr:<br>• Egluro a chryfhau cyfeiriadau at natur, lle a defnydd o hunanwerthuso ar draws gwahanol agweddau i sicrhau cysondeb. Mae angen i Medr sicrhau hefyd fod negeseuon am ddisgwyliadau Estyn ynghylch hunanwerthuso yn glir – nid ydym yn disgwyl i ddarparwyr greu unrhyw beth yn benodol ar ein cyfer nac ar gyfer arolygiad. Rydym yn disgwyl y bydd darparwyr yn gwerthuso'u gwaith yn rheolaidd ac yn defnyddio'r dystiolaeth hon i weithio gyda staff a dysgwyr i gynllunio ar gyfer gwella. Byddwn yn defnyddio unrhyw adroddiadau a chynlluniau gweithredu sy'n deillio o'r prosesau hyn yn dystiolaeth ar gyfer ein harolygiadau.<br>• Gallai canllawiau, yn cynnwys enghreifftiau, ganolbwyntio'n decach ar bob math o ddarparwr, fel y bo'n berthnasol<br>• Dylai Medr fod yn ofalus am y goblygiadau baich gwaith cyffredinol posibl i ddarparwyr, a dylai ystyried adolygu cymesuroldeb hyn mewn mannau, h.y. datganiadau blynyddol, ac ati |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Atodiad A – Datganiad o Bwerau Ymyrryd**

Mae hyn yn berthnasol i:

**Bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru**

Mae ein Pwerau Ymyrryd arfaethedig yn berthnasol i bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru gan eu bod yn amlinellu ystod ein pwerau ymyrryd a sut gellir defnyddio'r rhain i fynd i'r afael â materion diffyg cydymffurfio ag Amodau Cofrestru ac Amodau Cyllid.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Datganiad o Bwerau Ymyrryd?**

Rydym yn croesawu natur gynhwysfawr y Datganiad o Bwerau Ymyrryd, yn cynnwys ei gyflwyno yn ddogfen ar ei phen ei hun. Mae'r Datganiad yn hynod fuddiol o ran amlinellu'n glir y sylfaen ar gyfer y pwerau ymyrryd penodol sy'n berthnasol i wahanol fathau o ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant. Yn bwysig, mae'n cydnabod nad yw mathau o ddarparwyr bob amser yn annibynnol ar ei gilydd. Mae hyn yn rhoi eglurder, yn enwedig i sefydliadau addysg bellach sy'n fwy tebygol o ddod o dan fwy nag un 'math o ddarparwr'.

Rydym hefyd yn croesawu'r eglurhad ynghylch y modd y bydd ymgysylltiad ac ymyrraeth o ran dosbarthiadau chweched ysgolion a Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael ei gynnal gydag awdurdodau lleol. Mae Adran 1.3 yn arbennig o ddefnyddiol yn hyn o beth o ran rhoi eglurhad pwysig y bydd yr ymgysylltu fel arfer gyda'r awdurdod lleol perthnasol, nid yr ysgol, yn achos dosbarthiadau chweched ysgolion, gan olygu bod unrhyw gyfeiriadau at gyrff llywodraethol yn ymwneud â strwythurau cyfatebol yr awdurdodau lleol yn hytrach na rhai ysgolion. O ystyried y posibilrwydd am ddryswch ynglŷn â'r sefyllfa hon, byddai'n fuddiol atgyfnerthu'r pwynt hwn o dro i do yn yr holl ddogfennau allweddol.

Mae'r Datganiad hefyd yn fuddiol o ran cadarnhau, yn ogystal ag ymyriadau perthnasol gan Medr, bod Adrannau 69 a 70 TERA 2022 yn darparu ar gyfer ymyrraeth gan Weinidogion Cymru i fynd i'r afael â materion cydymffurfio yn y sector addysg bellach. Byddai'n ddefnyddiol nodi'r raddfa amser debygol ar gyfer cyhoeddi'r Datganiad o Bwerau Ymyrryd ar wahân gan Weinidogion Cymru yn gysylltiedig â hyn.

Ar nodyn llai, mae paragraff 3.1 yn nodi bod ffigur 2 yn amlinellu'r holl ymyriadau statudol yn eu trefn esgynnol. Nid yw'n glir gweld yr holl ymyriadau statudol o fewn Ffigur 2, ac mewn gwirionedd, mae nifer o siartiau llif ar draws y canllawiau sy'n dadansoddi cynnydd ymyriadau yn llawn.

Mae'r Datganiad o Bwerau Ymyrryd yn eich arwain at ddadgofrestru fel yr ymyrraeth derfynol. A yw pob un o'r darparwyr trydyddol a ariennir yn cael eu rhestru ar y dechrau os yw'r ddogfen ar gofrestr? Ai tynnu'r cyllid fydd yr ymyrraeth derfynol mewn rhai achosion? Efallai byddai Medr eisiau ystyried p'un a yw'r canlyniad posibl hwn yn ddigon clir o fewn y ddogfen. Mae'r diagram am y sbectrwm ymyriadau yn adran 8 yn y fframwaith rheoleiddio yn fuddiol iawn o ran darparu trosolwg a gellir ei ailadrodd yn fuddiol yn y datganiad o ymyriadau os yw hwnnw'n debygol o gael ei ddefnyddio a'i hyrwyddo fel dogfen ar ei phen ei hun.

Mewn nifer o achosion, gwneir cyfeiriadau drosodd i'r fframwaith ansawdd. Mae cysylltiad clir rhwng y ddau o ran gwelliant parhaus mewn ansawdd ar ôl nodi diffyg cydymffurfio. Rydym yn croesawu'r ffaith fod y datganiad o ymyriadau yn nodi y bydd tystiolaeth o arolygiadau ac adolygiadau ansawdd yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau. Gallai fod yn fuddiol ystyried rhoi mwy o sicrwydd i ddarparwyr, er enghraifft o dan yr adran am adolygiadau, y byddai Medr yn dibynnu ar fecanweithiau adolygu presennol, yn hytrach na'u dyblygu, lle bo'n bosibl ac yn briodol, ac yn arbennig lle mae Estyn neu QAA wedi nodi pryderon ac wedi gosod darparwr mewn categori gweithgarwch dilynol fel rhan o arolygiad neu adolygiad ansawdd. Byddai hyn yn atgyfnerthu nodau datganedig i fod yn rheoleiddiwr cymesur ac yn seiliedig ar risg.

**Atodiad B – Fframwaith Rheoleiddio**

Mae hyn yn berthnasol i:

**<u>Addysg uwch (gan gynnwys rhyddfraint / is-gontractiol);</u>**

**<u>Cyrsiau addysg uwch a nodwyd gan Weinidogion Cymru mewn rheoleiddio;</u>**

**<u>Addysg bellach;</u>**

**<u>Prentisiaethau; a</u>**

**<u>Dysgu oedolion yn y gymuned.</u>**

**Dull Rheoleiddio**

Ein bwriad yw bod yn rheoleiddiwr cymesur ac yn seiliedig ar risg i gyflawni'r nodau a amlinellir yn ein Cynllun Strategol. O ran ein Dull Rheoleiddio arfaethedig:

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Dull Rheoleiddio, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennau rheoleiddio?**

Rydym yn croesawu bwriad datganedig Medr i fod yn rheoleiddiwr cymesur ac yn seiliedig ar risg. Mae set lawn y dogfennau rheoleiddio yn gynhwysfawr ac wedi'i strwythuro'n briodol. Mae'r ffocws lefel uchel yn helpu hwyluso perthnasedd ar draws sectorau. Yn benodol, mae'r pwyslais cryf ar ganologrwydd anghenion dysgwyr a chydweithio â darparwyr addysgol a rhanddeiliaid i gyflawni deilliannau ar y cyd a gyrru gwelliant parhaus yn cyd-fynd yn dda â'n dull a'n gweledigaeth strategol. Rydym hefyd yn croesawu ac yn rhannu'r ymrwymiad datganedig i leihau'r baich fel y nodwyd yn egwyddorion arweiniol Medr ar gyfer sefydlu a chyflawni ei ofynion rheoleiddio.

Mae set lawn y dogfennau rheoleiddio yn ddefnyddiol o ran darparu gwybodaeth gefndir bwysig i'r Dull Rheoleiddio, yn cynnwys ei gyd-destun strategol, ei nodau, ei athroniaeth reoleiddio a'i egwyddorion, yn ogystal ag egluro disgwyliadau Medr. At ei gilydd, mae'r

dogfennau'n darparu manylion clir am ddull rheoleiddio cyffredinol Medr, yn ogystal ag amlinellu ei ddisgwyliadau a'i ofynion.

Rydym yn nodi'r pwyslais cryf a pharhaus ar hunanwerthuso. Byddai'n fuddiol pe bai holl elfennau hunanwerthuso darparwyr y mae Medr yn ystyried eu bod yn orfodol yn cael eu rhestru mewn un lle, er mwyn i ddarparwyr allu dod o hyd yn hawdd i'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt gan Medr. Er enghraifft, mae tud.104 Atodiad B yn rhestru gofynion ar gyfer hunanawerthuso yn gysylltiedig â chyfle cyfartal. Pan restrir enghreifftiau tebyg yn rhywle arall, byddai'n fuddiol dod â'r rhain ynghyd mewn un lle.

Bydd ansawdd prosesau hunanwerthuso darparwyr yn pennu pa mor effeithiol y maent yn deall i ba raddau y maent yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn cynllunio gwelliannau priodol. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gymesuroldeb elfennau hunanwerthuso gorfodol i osgoi llethu darparwyr yn ormodol, er enghraifft dysgu oedolion yn y gymuned lle gallai darparwyr fod yn sefydliadau bach gyda chapasiti rheoli cyfyngedig. I osgoi dyblygu, bydd enghreifftiau clir i egluro cymesuroldeb ar gyfer gwahanol ddarparwyr a'r graddau y bydd deilliannau dysgwyr yn cael eu hystyried yn gysylltiedig â pha mor dda y mae'r darparwr yn deall ac yn diwallu anghenion dysgwyr yn fuddiol.

Yn adran 5.12.1, mae'r ddogfen yn datgan 'Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn tynnu ar brosesau hunanwerthuso presennol – er enghraifft y rhai a gynhelir ar gyfer Estyn neu QAA. Efallai y byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr rannu agweddau ar eu hunanwerthuso eu hunain yng nghyd-destun ein Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol '. Cyfeirir at beidio â dyblygu prosesau hunanwerthuso presennol. Mae hyn yn synhwyrol ac yn briodol. Fodd bynnag, mae'r iaith yn awgrymu y dylai darparwyr gynnal hunanwerthusiad yn benodol at ddibenion Estyn neu QAA. Nid yw hyn yn gyson â'n negeseuon nad ydym yn nodi sut nac ym mha ffurf y dylai darparwyr gynnal hunanwerthuso – ac ni ddylai fod at ddibenion Estyn na QAA chwaith, yn fwy at ddibenion gyrru gwelliant parhaus o fewn eu sefydliad eu hunain. Yn ychwanegol, mae Atodiad B tud.75 yn cyfeirio at 'broses hunanwerthuso Estyn' sy'n ddi-fudd gan nad ydym yn hyrwyddo nac yn gofyn am broses hunanwerthuso benodol. Rydym yn annog darparwyr i beidio â chynnal prosesau hunanwerthuso a chreu dogfennau yn benodol i ni . Pan fyddwn yn arolygu darparwr, rydym yn ystyried eu barn nhw am y graddau y maent yn diwallu anghenion dysgwyr, trwy ba broses hunanwerthuso bynnag y maent yn ei defnyddio. Rydym hefyd yn ystyried eu cynlluniau ar gyfer gwella ac yn ystyried y cysylltiad rhwng y cynlluniau hyn a chanfyddiadau eu hunanwerthuso. Weithiau, mae ein harolygiad yn nodi gwendid o ran pa mor dda y mae darparwyr wedyn yn gwerthuso effaith y camau gwella y maent yn eu cynllunio. Gallai Medr fod eisiau ystyried sut i atgyfnerthu'r angen i wneud hyn ar draws y fframwaith rheoleiddio.

Mae'r dull rheoleiddio arfaethedig yn darparu cyfle i ddatblygu fframweithiau ar draws systemau i goladu a gwerthuso ystod o ddata ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yn bwysig, dylai fframweithiau hefyd gynnwys ystyriaeth o ddeilliannau ar gyfer dysgwyr nad yw eu hanghenion dysgu yn disgyn o dan nawdd Deddf

Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), sy'n darparu diffiniad cyfreithiol o ADY gan ystyried angen, mathau o ddarpariaeth cymorth, oedran a lle mae dysgwr yn cael ei addysgu neu'i hyfforddi. Gallai Medr hefyd fod eisiau ystyried p'un a yw'r modd y caiff y rhai â nodweddion gwarchodedig eu cefnogi ei ymgorffori ddigon ar draws y fframwaith rheoleiddio.

Rydym wedi nodi amrywiad eang o ran sut caiff cyfrifoldebau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol eu dehongli, sut caiff cymorth ei gynllunio, a sut caiff deilliannau eu monitro. I gefnogi dealltwriaeth darparwyr, dylai terminoleg yn y gofynion rheoleiddio sy'n ymwneud â diwallu anghenion dysgwyr gyd-fynd â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) yn y canllawiau statudol o fewn y Cod ADY. Mae rhywfaint o waith yn cael ei wneud i helpu egluro'r rhain ar hyn o bryd y gallai Medr fod eisiau cysylltu â Llywodraeth Cymru i'w hystyried.

Dylai asesiadau risg gynnwys ystyriaeth systematig o brofiad a deilliannau grwpiau dysgwyr bregus neu grwpiau dysgwyr nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Trefniadau Monitro**

Mae ein Dull Rheoleiddio wedi llywio'r ffordd yr ydym yn bwriadu monitro cydymffurfio â'r Amodau Cofrestru / Cyllid, a esbonnir yn ein trefniadau monitro arfaethedig.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Trefniadau Monitro, yng nghyd-destun set lawn y dogfennau rheoleiddio?**

Rydym yn croesawu'r datganiad clir o ddealltwriaeth ar y cyd fod rhaid i fonitro effeithiol fynd y tu hwnt i gasglu data neu orfodi. Mae'n ymddangos bod yr egwyddorion sy'n sail i'r dull ar gyfer monitro yn strwythuredig, yn gynhwysfawr ac yn gydlynus. Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad clir i gymesuroldeb, barn yn seiliedig ar risg, eglurder a thryloywder, dim syndod ac ymgysylltu cynnar, ymreolaeth sefydliadol a chefnogaeth ar gyfer gwelliant parhaus.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi bod datblygu model monitro cyfunol, cyfuno gweithgareddau wedi'u harwain gan sicrwydd a gweithgareddau ymgysylltu yn gynnyrch ymgynghori a chyd-ddatblygu helaeth ynghyd â chroesawu'r ymrwymiad i esblygu'r model ar y cyd ymhellach. Bydd cytuno ar fformat Datganiadau Sicrwydd Blynyddol ynghyd ag ymgysylltu parhaus a datblygu gofynion tystiolaeth ategol yn hanfodol i lwyddiant trefniadau monitro. Bydd y broses Digwyddiadau Adroddadwy a defnyddio data i fonitro perfformiad a nodi meysydd pryder posibl yn amlwg yn gofyn am ddidwylledd a thryloywder gan bawb.

Rydym yn cydnabod y gwerth a'r angen i bawb sy'n ymwneud â rheoleiddio cyffredinol y sector trydyddol weithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau eglurder a thryloywder, osgoi dyblygu a lleihau baich. Rydym yn nodi sawl cyfeiriad at Estyn trwy gydol y dogfennau

llawn ac yn awyddus i weithio'n agos gyda Medr a QAA i sicrhau bod pob un o'r rhanddeiliaid yn ymwybodol o rolau allweddol a meysydd ffocws arbennig pob corff, ac yn eu deall, yn ogystal ag unrhyw feysydd allweddol o orgyffwrdd a rhannu gwybodaeth.

Mae'r Trefniadau Monitro newydd yn cynyddu disgwyliadau ynghylch llywodraethu, sicrwydd ac adrodd. Mae perygl y gallai hyn gynyddu beichiau gwaith gweinyddol, yn enwedig mewn darparwyr llai ynghylch Datganiadau Sicrwydd Blynyddol a chyflwyno tystiolaeth.

Hoffem dynnu sylw at y canlynol, hefyd:

Yn nhabl 6, ni chaiff adolygu gan Estyn / QAA ei wirio fel pe bai'n ddull o fonitro amodau'n barhaus ar gyfer sawl maes yr ydym yn edrych arnynt fel rhan o'n prosesau arolygu / adolygu, yn cynnwys cynaliadwyedd ariannol; llywodraethu a rheoli; ystyriaeth i gyngor ac arweiniad; gwybodaeth, cymorth a mynediad; a gweithdrefnau cwynion.

Parthed: 8.3.1. Mae'n ymddangos bod yr iaith a ddefnyddir yma yn awgrymu y bydd pennaeth y sefydliad yn Bennaeth / Is-Ganghellor. Rydym yn nodi bod nifer gynyddol o golegau addysg bellach yn rhannu rolau'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth, felly awgrymwn y dylid ei ddiwygio yn unol â hynny. Hefyd, o fewn y sector prentisiaethau, gallai fod Rheolwr Gyfarwyddwr / Prif Weithredwr i'w ystyried yn achos Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol.

Parthed: 10 Calendr monitro – nid yw data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn cael ei wirio ar gyfer prentisiaethau na dysgu oedolion yn y gymuned, ond mae'n cael ei wirio ar gyfer addysg bellach. Mae'r wybodaeth hon yr un mor bwysig ar draws pob un o'r tri sector.

Mae'n bwysig nodi'r cyfyngiadau yr ydym eisoes wedi'u hamlygu ynglŷn â pha mor dda y gallwn ddarparu tystiolaeth ar gyfer dosbarthiadau chwech ar hyn o bryd.

Mae'n dda gweld dulliau nad ydynt yn rhai meintiol o werthuso deilliannau dysgwyr yn cael eu cydnabod, fel RARPA (Atodiad C, para. 64).

Sylwer bod Para. 49 yn dweud bod Estyn yn arolygu darpariaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Mae hyn yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'n arolygu darpariaeth AGA Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) ar hyn o bryd. Byddem yn croesawu gallu gwneud y gwaith hwn yn y dyfodol i adeiladu ar yr adolygiadau thematig cyfnodol yr ydym wedi eu gwneud.

I nodi a mynd i'r afael ag annhegwch, dylai monitro gynnwys dadansoddiad ystyrlon o ddeilliannau ar gyfer dysgwyr ag anghenion a nodwyd, yn cynnwys y rhai ag ADY. Mae arolygiadau a thystiolaeth thematig Estyn yn dangos bod deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY yn amrywio'n sylweddol ar draws lleoliadau addysg bellach a lleoliadau ôl-16 eraill, yn enwedig o ran presenoldeb, cadw, cwblhau rhaglenni a dilyniant. Felly, dylai trefniadau monitro ofyn i ddarparwyr ystyried, dadansoddi a gweithredu ar ddata wedi'i ddadgyfuno ar ddysgwyr ag ADY yn rhan o asesu risg. Heb hyn, gallai annhegwch sylweddol barhau'n gudd.

Gall prinder staff cymorth dysgu, neu fynediad anghyson at wasanaethau myfyrwyr a gwasanaethau iechyd ehangach gael effaith sylweddol ar gynnydd dysgwyr. Dylid gofyn i ddarparwyr ddangos sut maent yn monitro ac yn lliniaru risgiau yn ymwneud â staff arbenigol a chefnogi capasiti.

**Proses Digwyddiadau Adroddadwy**

Mae ein Proses Digwyddiadau Adroddadwy arfaethedig yn amlinellu ein disgwyliadau ar gyfer yr achosion difrifol hynny a digwyddiadau hysbysadwy sydd angen eu hadrodd i Medr, a sut a phryd y mae'n rhaid i'r rhain gael eu hadrodd gan ddarparwyr.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Broses Digwyddiadau Adroddadwy, yng nghyd-destun set lawn y dogfennau rheoleiddio?**

Y Manylion Atodol: Mae adran Digwyddiadau Adroddadwy Atodiad B yn amlinellu'n glir beth yw diben, cwmpas a rôl digwyddiadau adroddadwy. Mae'r fframwaith yn gynhwysfawr ac yn gydnaws â nodi, hysbysu a lliniaru risgiau'n gynnar.

Mae Tablau 1 a 2 hefyd yn amlinellu rhestrau clir o achosion difrifol a digwyddiadau hysbysadwy yn y drefn honno, gan ddarparu eglurder pwysig i helpu darparwyr i nodi a chategoreiddio pa achosion a digwyddiadau sy'n disgyn ym mhob categori, ynghyd â chamau gweithredu allweddol, graddfeydd amser a gofynion gwybodaeth, yn ogystal â threfniadau Medr ar gyfer ymateb.

Dylai'r manylion hyn helpu darparu arweiniad hanfodol i uwch arweinwyr a chyrff llywodraethol ar yr amgylchiadau y mae'n ofynnol iddynt adrodd am achosion difrifol a digwyddiadau hysbysadwy ynddynt i Medr. Er bod y wybodaeth yn rhoi eglurder hanfodol ar y mathau o achosion a digwyddiadau, mae lle am amrywioldeb mewn dehongli o ystyried yr amwysedd dros drothwyau fel 'tarfu sylweddol', 'digwyddiadau sy'n debygol' a 'gweithgarwch risg uchel' a allai, yn eu tro, arwain at adrodd anghyson. Mae gorgyffwrdd posibl hefyd gyda rheoleiddwyr eraill a allai ei gwneud yn ofynnol i adrodd i gyrff / asiantaethau eraill, fel Estyn / QAA, Llywodraeth Cymru, archwilwyr, sefydliadau dyfarnu neu'r heddlu. Mae hyn yn awgrymu y bydd cydlynu cryf a chyfathrebu effeithiol yn hanfodol rhwng cyrff perthnasol.

Gallai darparwyr ei chael yn anodd barnu pryd y dylid codi materion fel methiant mynych i wneud addasiadau rhesymol, gostyngiad yng nghapasiti staff, cynnydd mewn cyfraddau tynnu'n ôl neu ddiffyg cwblhau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu wedi'u nodi, neu oedi parhaus mewn glynu at linellau amser statudol a pholisïau sefydliadol. Byddai canllawiau eglur yn hyrwyddo mwy o gysondeb ar draws addysg bellach, addysg uwch a dysgu yn y gwaith.

Mae'n fuddiol fod ffocws ar ddiogelu yn y rhestr o ddigwyddiadau adroddadwy. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Gallai Medr fod

eisiau ystyried p’un a oes angen cryfhau’r gofyniad i hysbysu Medr os oes honiad ynghylch diogelu yn erbyn aelod o staff mewn lleoliad a ariennir gan Medr.

**Cynaliadwyedd Ariannol**

Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig sy’n gysylltiedig â Chynaliadwyedd Ariannol wedi defnyddio trefniadau rheoleiddio a sicrwydd ariannol o ran darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, tra’n ystyried yr amgylchedd presennol a’r amgylchedd posibl yn y dyfodol ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Cynaliadwyedd Ariannol, yng nghyd-destun set lawn y dogfennau rheoleiddio?**

Mae’r adran ddogfennau sy’n ymwneud â’r Amod Cynaliadwyedd Ariannol yn darparu eglurder pwysig am y diffiniad o ‘yn ariannol gynaliadwy’, beth sy’n ofynnol o ddarparwyr, a sut bydd cydymffurfiad yn cael ei fonitro. Rhoddir eglurhad defnyddiol hefyd ar faterion fel graddfeydd amser byr / canolig / hir, rhwymedigaethau penodol, amgylchiadau sydd angen cymeradwyaeth flaenorol Medr, monitro a gofynion tystiolaeth, disgwyliadau llywodraethu a rheolaeth ariannol, a gofynion cofrestru cychwynnol.

Dylai disgrifiadau’r fframwaith ynglŷn â beth mae cynaliadwyedd ariannol yn ei olygu fod yn ddefnyddiol wrth helpu sicrhau bod darparwyr yn aros yn ddiddyled ar unwaith ac yn y tymor hwy. Mae’r ddogfen yn gynhwysfawr ac yn amlinellu ymagwedd gytbwys at hyblygrwydd a rheolaeth (er enghraifft, caniatáu diffygion tymor byr ar gyfer buddsoddiad strategol), monitro yn seiliedig ar risg a chymesur, tryloywder ac atebolrwydd, yn ogystal â rheolaethau yn seiliedig ar drothwy dros fenthyca ac ymrwymiadau ariannol.

Trwy helpu sicrhau hyfywedd ariannol hirdymor darparwyr ar draws y sector trydyddol, dylai’r Amod helpu diogelwch dysgwyr, cyllid cyhoeddus a chynnal sefydlogrwydd cyffredinol y sector. Er mwyn llwyddo, mae angen ei weithredu’n effeithiol trwy ddarparu canllawiau clir yn barhaus, rheoli beichiau gweinyddol yn ofalus, barn gymesur, a gorfodi a mecanweithiau cadarn ond teg i ymdopi ag amgylchiadau eithriadol fel amrywiadau mewn amgylcheddau gweithredu.

Bu achosion diweddar lle mae darparwyr awdurdodau lleol wedi penderfynu na allant gynnig darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned o fewn cwmpas y Grant Dysgu yn y Gymuned. Yn yr achos hwn, roedd y ‘darparwr’ (h.y. yr awdurdod lleol) yn hyfyw o hyd, ond nid oedd ei ddarpariaeth. Gallai fod yn fuddiol egluro y gellir ystyried bod elfennau o ddarpariaeth y anhyfyw mewn darparwr fel awdurdod lleol sydd efallai’n cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth drydyddol, tra gallai’r darparwr cyfan fod yn hyfyw o hyd.

Bydd canlyniad y broses ar gyfer cyllid grant prentisiaethau hefyd yn bwysig, yn enwedig p’un a fydd cyllid yn cael ei ddyfarnu bob blwyddyn neu dros gyfnod hwy, o 3 blynedd, dyweder. Bydd hyn yn effeithio ar allu darparwr i ragweld cynaliadwyedd ariannol dros

gyfnodau hwy, yn enwedig darparwyr hyfforddiant annibynnol y mae cyllid prentisiaethau yn unig ffynhonnell neu'n brif ffynhonnell incwm iddynt.

Mae tystiolaeth yn dangos bod bron pob darparwr addysg bellach yn dweud bod yr amser a gymerir i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) wedi rhagori ar ddisgwyliadau ac yn rhoi pwysau ar feichiau gwaith staff. Rydym hefyd yn gwybod bod niferoedd digynsail o ddysgwyr yn cyrraedd colegau heb ennill cymwysterau lefel 1 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. O ganlyniad, rhaid i ddisgwyliadau a roddir ar ddarparwyr mewn cysylltiad â chynaliadwyedd ariannol fod yn ymwybodol o gostau i ddarparwyr o ran diwallu ehangder cynyddol o anghenion dysgwyr. Mae cyfran yr ysgolion y disgwylir y byddant yn llithro i mewn i ddiffyg yn eu cyllideb hefyd yn destun pryder, yn enwedig lle maent yn cael trafferth cynnal darpariaeth chweched dosbarth.

**Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)**

Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig sy'n gysylltiedig â Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol) yn amlinellu ein disgwyliadau o ran llywodraethu a rheoli darparwyr, gan gynnwys sut maent yn rheoli eu cyllid.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol), yng nghyd-destun set lawn y dogfennau rheoleiddio?**

Mae'r amod cofrestru Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol) yn sefydlu set glir a chydlynus o gyfrifoldebau llywodraethu y mae'n rhaid i bob darparwr trydyddol eu dangos. Rydym yn croesawu'r pwyslais a roddir ar drefniadau llywodraethu integredig sy'n cysylltu rheoli ariannol, sicrhau ansawdd, rheoli risg a strategaeth sefydliadol. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion sefydledig llywodraethu da ar draws sectorau addysg yng Nghymru, ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer sicrhau atebolrwydd a sefydlogrwydd sefydliadol.

Mae disgwyliad y fframwaith y dylai trefniadau llywodraethu ymestyn ar draws strwythurau grŵp cyfan, yn cynnwys is-gwmnïau, rhiant gyrff ac unrhyw endid sydd o dan ddylanwad sylweddol yn amddiffyniad pwysig. Mae'r gofyniad hwn yn cefnogi tryloywder gwell ynghylch llifau ariannol a dirprwyo rheolaeth ac yn sicrhau na ellir cuddio risgiau sy'n deillio o strwythurau corfforaethol. Mae'r ffurflen sicrwydd blynyddol arfaethedig, sydd wedi'i chymeradwyo gan gorff llywodraethol darparwr, yn atgyfnerthu egwyddor atebolrwydd lefel uchel.

Caiff yr ymrwymiad cyffredinol i ddull rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg ac yn gymesur ei groesawu'n fawr am fod ganddo'r potensial i leihau baich diangen lle mae trefniadau llywodraethu a rheoli yn gadarn, tra'n galluogi ymgysylltu agosach lle mae risgiau perthnasol yn bresennol.

Rydym yn nodi meysydd lle byddai mwy o eglurder yn cryfhau'r fframwaith ac yn cefnogi gweithredu cyson. Nid yw'r fframwaith yn diffinio'r hyn y mae llywodraethu effeithiol yn ei olygu. Heb ddangosyddion cliriach o gymhwysedd bwrdd, annibyniaeth, ymgysylltu a llais y dysgwr na disgwyliadau ynghylch strwythurau pwyllgor, gallai asesiadau fynd yn rhy oddrychol neu amrywio rhwng darparwyr. Byddai mwy o benodoldeb, neu gyfatebiaeth â chodau llywodraethu cydnabyddedig, yn helpu llunio disgwyliadau cyson. Yn ychwanegol, gallai'r gofynion gweinyddol a amlinellir yn yr adran hon, yn enwedig adrodd wedi'i atgyfnerthu mewn grwpiau, datganiadau rheolaeth fewnol a dogfennau risg manwl, greu her anghymesur i ddarparwyr llai neu newyddach. Byddai canllawiau cliriach ar sut bydd cymesuroldeb yn gweithredu yn ymarferol yn fuddiol.

Rydym hefyd yn nodi y byddai'r meini prawf ar gyfer asesu strwythurau grŵp ac endidau cysylltiedig yn elwa ar fwy o esboniad, yn enwedig ynghylch dehongli 'dylanwad sylweddol' a graddau goruchwyliaeth Medr mewn trefniadau sefydliadol cymhleth. Hefyd, mae'r fframwaith yn dibynnu'n helaeth ar hunanadrodd a sicrwydd mewnol darparwyr. Er bod hyn yn cyd-fynd â normau sector, gallai fod gwerth mewn nodi amgylchiadau lle byddai sicrwydd allanol ychwanegol, adolygiadau thematig neu brosesau gwirio cryfach yn briodol.

Mae tystiolaeth o'n gwaith arolygu ac adolygu thematig yn dangos bod effeithiolrwydd darparwyr wrth ddiwallu anghenion dysgwyr yn amrywio'n eang ar draws darparwyr trydyddol, a bod gwendidau yn aml yn codi pan nad yw cyrff llywodraethol yn derbyn gwybodaeth reolaidd, wedi'i dadgyfuno am gynnydd, presenoldeb, cadw a lles dysgwyr. Yn unol â hynny, byddai'r amod yn elwa ar ofyn yn eglur i gyrff llywodraethol graffu ar y perthnasoedd rhwng anghenion dysgwyr a deilliannau.

At ei gilydd, mae'r gofynion llywodraethu a rheoli yn darparu sylfaen gref a strwythuredig ar gyfer hyrwyddo atebolrwydd, tryloywder a goruchwyliaeth sefydliadol gadarn. Byddai eglurhad yn y meysydd a amlygir uchod yn helpu sicrhau cymhwyso cyson, yn cryfhau sicrwydd rheoleiddio ac yn gwella capasiti'r fframwaith i ddiogelu diddordebau dysgwyr a'r system addysg drydyddol ehangach.

**Ansawdd**

Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig sy'n gysylltiedig ag Ansawdd yn defnyddio'r Fframwaith Ansawdd Drafft, yn croesawu cydymffurfio gwaelodlin ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Ansawdd, yng nghyd-destun set lawn o ddogfennau rheoleiddio?**

Rydym yn croesawu cynnwys ymrwymiad clir i fonitro ansawdd darpariaeth addysg, wedi'i ategu gan y mecanweithiau sicrhau ansawdd drafft y cyfeirir atynt yn yr Amod Cofrestru / Cyllid sy'n gysylltiedig ag Ansawdd. Gan fod y gyfundrefn reoleiddio newydd yn

dod â phob un o'r darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant o dan strwythur goruchwylio cyffredin, mae'r pwyslais ar fframwaith ansawdd ochr yn ochr â llywodraethu, cynaliadwyedd ariannol a chyfrifoldebau darparwyr yn hanfodol i ddiogelu dysgwyr a budd y cyhoedd. Rydym yn croesawu uchelgais Medr i ddefnyddio dull cymesur, yn seiliedig ar risg ar gyfer monitro, sy'n cyfuno amodau cofrestru a chyllid gyda sicrhau ansawdd mewn ffordd sy'n cydnabod amrywiaeth y ddarpariaeth ar draws addysg uwch, addysg bellach, dosbarthiadau chwech ysgolion, prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned.

Rydym yn ystyried y byddai'r fframwaith yn gryfach o gael mwy o eglurder ar sut bydd ansawdd yn cael ei asesu yn ymarferol, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer gwerthuso, amlder adolygiadau a sut i sicrhau cydbwysedd rhwng hunanwerthuso, adolygu allanol a barn dysgwyr.

Mae'r pwyslais ar brofiad dysgwyr, hunanwerthuso yn seiliedig ar dystiolaeth a gwelliant parhaus yn gadarnhaol ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, i sicrhau darpariaeth gyson ar gyfer pob un o'r dysgwyr, dylid cyfeirio'n eglur at ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Dylid disgwyl i ddarparwyr ddisgrifio a dadansoddi deilliannau ar gyfer gwahanol grwpiau dysgwyr. Heb hyn, gallai annhegwch pwysig barhau i fod yn anweladwy. Dylai disgwyliadau egluro sut maent yn cyd-fynd â chyfrifoldebau statudol, yn cynnwys defnyddio Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a chynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Er bod cadarnhad gan ddarparwr fod ganddo strategaeth i gefnogi dysgu a datblygiad proffesiynol i'w groesawu, gellid cryfhau hyn gyda gofyniad i ddarparwyr ddangos sut mae dysgu proffesiynol yn effeithio ar ddeilliannau dysgwyr.

O ran gofynion cydymffurfio, rydym wedi nodi cyfres o gwestiynau ynglŷn â'u cymhwyso i brentisiaethau. I gydymffurfio â'r amod hwn, mae'n ofynnol i ddarparwyr:

1. gyflawni deilliannau asesu ansawdd allanol boddhaol – Beth mae hyn yn ei olygu yng nghyd-destun arolygiad Estyn? Ddim mewn categori gweithgarwch dilynol?

2. cael data perfformiad derbyniol – sut bydd Medr yn diffinio'r hyn sy'n ddata perfformiad derbyniol? A fydd hyn yn cael ei amlinellu fel trothwyau gofynnol, neu'n cael ei feincnodi yn erbyn y sector? Rydym wedi amlinellu yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar brentisiaethau ein bod yn dosbarthu dangosyddion data allweddol mewn cyd-destun darparwr prentisiaeth

Parthed: "llais y dysgwr – cadarnhad eu bod yn defnyddio deilliannau arolygon dysgwyr fel rhan o'u prosesau sicrhau ansawdd a gwella'n barhaus" – Nid yw'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn nodi ar hyn o bryd sut dylai darparwyr ymgysylltu â dysgwyr, gan ganolbwyntio yn hytrach ar effaith dulliau'r darparwyr. Felly, a yw'r frawddeg hon yn cyfeirio at arolygon cenedlaethol o ddysgwyr (mewn datblygu)? Ac os felly, a fydd gofyniad gorfodol i bob darparwr ymgysylltu â nhw?

Parthed: “Mae disgwyliad y bydd adborth gan ddysgwyr a darparwyr yn llywio’r adolygiad hwn.” – Beth am Estyn/QAA?

Parthed: Ffurflen sicrwydd blynyddol: fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Blynyddol Medr, bydd disgwyl i ddarparwyr hunanddatgan eu bod wedi bodloni gofynion yr amod, gyda thystiolaeth gysylltiedig. A fydd y ffurflen sicrwydd blynyddol yn ddogfen ar wahân i’r dystiolaeth ofynnol ynghylch hunanwerthuso a gwelliant parhaus? Os felly, mae’n teimlo y byddai llawer o ddyblygu rhwng y ddau gyda chyfleoedd i gyfuno, efallai?

Parthed: Deilliannau asesiadau ansawdd allanol: mae hyn yn cynnwys arolygiadau Estyn ac adolygiadau QAA. Bydd deilliannau adolygiadau datblygiadol / thematig / daearyddol hefyd yn llywio’r monitro – A fyddwn ni wedyn yn bwriadu defnyddio deilliannau adolygiadau thematig i lywio monitro ar lefel darparwr? A yw hyn yn golygu ymweliadau cyswllt, hefyd? Os felly, gallai hyn newid dynameg y mathau hyn o weithgarwch yn sylweddol.

**Lles Staff a Dysgwyr**

Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid cychwynnol a pharhaus arfaethedig yn amlinellu gofynion i ddarparwyr gael trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi a hyrwyddo lles dysgwyr a staff.

**A ellid cymhwyso’r amod hwn yn gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

**Gellid**

**A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

**Ydyn**

**A yw’r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

**Nac ydy.** Byddai’n fuddiol cryfhau’r gofyniad i weithio gyda staff a dysgwyr i ddatblygu’r trefniadau effeithiol i hyrwyddo a chefnogi eu lles. Gellid ychwanegu hyn naill ai yn yr amod cyffredinol neu o fewn yr amodau manylach.

**Y Gymraeg**

Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid parhaus arfaethedig sy’n gysylltiedig â’r Gymraeg yn amlinellu gofynion a disgwyliadau ar gyfer darparwyr perthnasol i gymryd yr holl gamau rhesymol i annog mwy o ddefnydd o’r Gymraeg a chynyddu’r galw am addysg drydyddol ac ymchwil a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn y Gymraeg fel pwnc, a chyfranogiad ynddynt.

**A ellid cymhwyso’r amod hwn yn gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

**Gellid**

**A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

**Ydyn**

**A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

**Ydy.** Fodd bynnag, byddai'n fuddiol ystyried unrhyw gysylltiadau sydd angen eu gwneud â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y mae awdurdodau lleol yn eu datblygu. Hefyd, a oes cyfle i annog cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi cyflawni eu Strategaethau Cymraeg?

**Cynlluniau Diogelu Dysgwyr**

Nod ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Diogelu Dysgwyr yw cyflawni ein dyletswyddau fel yr amlinellir yn Adran 126 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i Medr gyhoeddi canllawiau ar baratoi a diwygio cynlluniau diogelu dysgwyr.

**A ellid cymhwyso'r amod hwn yn gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

**Gellid**

**A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

**Ydyn**

**A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

**Ydy**

**Cod Ymgysylltu â Dysgwyr**

Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn cyd-fynd â'r dyletswyddau a amlinellir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i Medr baratoi a chyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr am ran dysgwyr ym mhroses gwneud penderfyniadau eu darparwyr. Mae gofynion yr amod hwn wedi'u hamlinellu yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (Atodiad D) ac yn cyd-fynd â nod strategol Medr i ganolbwyntio addysg drydyddol o amgylch anghenion y dysgwr.

**A ellid cymhwyso'r amod hwn yn gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

**Gellid.** Fodd bynnag, mae llawer o'r enghreifftiau a ddarperir yn Atodiad D yn ymwneud ag addysg uwch neu addysg bellach, gydag ychydig iawn o enghreifftiau o ddosbarthiadau chwech, dysgu yn y gwaith neu ddysgu oedolion yn y gymuned. Gellid gwella'r canllawiau trwy enghreifftiau trwy gwmpasu'r mathau amrywiol o ddarparwyr yn decach.

**A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

**Yn rhannol**

Gallai'r saith egwyddor gyntaf ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr gael eu rhesymoli o bosibl yn rhestr lai a fyddai'n fwy hylaw i ddarparwyr weithio gyda hi gan fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y themâu. Mae'r ddwy egwyddor olaf yn ymddangos yn ddiangen. Byddai 'adnoddau'n cael eu darparu' yn ei hanfod ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr os yw'r saith egwyddor gyntaf yn cael eu bodloni. Nid oes angen cael 'wedi gwerthuso' fel egwyddor yma gan fod hunanwerthuso yn ddisgwyliad ehangach i bob darparwr ar gyfer pob agwedd ar ei waith. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod darparwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith gwaith ymgysylltu â dysgwyr.

**A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

**Ydy**

**Cyfle Cyfartal**

Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig sy'n gysylltiedig â Chyfle Cyfartal yn amlinellu gofynion i ddarparwyr gyflawni deilliannau mesuradwy sy'n gwella mynediad, cadw, cyrhaeddiad, a dilyniant ar gyfer dysgwyr o grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt, ac i gefnogi cyfranogiad cynhwysol mewn ymchwil ac arloesi.

**A ellid cymhwyso'r amod hwn yn gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

**Gellid**

**A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

**Yn rhannol – gweler y sylwadau yn yr adran nesaf**

**A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

**Ydy**

**Cyfle Cyfartal**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr amod Cyfle Cyfartal a'r manylion atodol yn darparu eglurder digonol ynghylch disgwyliadau a gofynion darparwyr?**

**Cytuno**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd yr amod Cyfle Cyfartal yn datblygu gwelliannau ystyrlon mewn cyfle cyfartal ar gyfer dysgwyr ar draws y sector addysg drydyddol?**

**Cytuno**

**Rhowch sylwadau i gefnogi'ch ymateb, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau o effaith bosibl, cyfyngiadau neu ganlyniadau anfwriadol:**

Yn Atodiad B, mae paragraff 23 y Manylion Atodol: Cyfle Cyfartal yn cynnwys ystod o ofynion hunanwerthuso sy'n ddiangen o ragnodol, a gallent fod yn anghymesur â graddfa'r darparwyr.

Croesewir bwriad yr amod cyfle cyfartal a'i ofyniad y dylai darparwyr gyflawni gwelliannau mesuradwy mewn mynediad, cadw, cyrhaeddiad a dilyniant ar gyfer dysgwyr nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt. Fodd bynnag, byddai'r amod yn gryfach trwy wneud dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn eglur o weladwy o fewn disgwyliadau a chanllawiau.

Mae gwaith arolygu a thematig Estyn yn dangos bod dysgwyr mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith yn profi ansawdd cymorth amrywiol, mynediad anghyson at lwybrau addas, a bylchau mewn cadw a dilyniant. Ni fydd y materion hyn yn cael eu cofnodi'n ddibynadwy oni bai bod yr amod yn gofyn i ddarparwyr ddadgyfuno a dadansoddi deilliannau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu eang ochr yn ochr â grwpiau eraill a gwmpesir yn yr Atodiad.

**Gweithdrefnau Cwynion**

Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig wedi defnyddio'r ddyletswydd a amlinellir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ar gyfer Medr i sicrhau bod gan ddarparwyr addysg drydyddol weithdrefnau cwynion ar waith a'u bod yn cymryd camau rhesymol i wneud dysgwyr yn ymwybodol ohonynt.

**A ellid cymhwyso'r amod hwn yn gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

**Gellid**

**A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

**Ydyn**

**A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

**Ydy.** Gallai Medr fod eisiau ystyried p'un a allai gryfhau'r angen i geisio gwneud yn siŵr bod darparwyr yn sicrhau rhyw lefel o annibyniaeth o achosion o gwyno am bobl wrth ymchwilio i gŵynion. Gallai Medr fod eisiau ystyried hefyd p'un a yw o'r farn fod y canllawiau yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r argymhellion o'n hadroddiad yn 2015 ar weithdrefn cwynion dysgwyr mewn colegau addysg bellach - Adroddiad arolwg thematig. Un o'r argymhellion oedd sicrhau bod unrhyw arolygon cenedlaethol o ddysgwyr yn

cynnwys cwestiwn ynglŷn â ph’un a oedd dysgwyr yn teimlo’n hyderus ynghylch gwybod sut i wneud cwyn neu godi pryder. Dylid ystyried yr arolygon cenedlaethol arfaethedig o ddysgwyr yn gyfrwng i roi sicrwydd i Medr ynghylch effeithiolrwydd trin cwynion.

**Sylw i Gyngor a Chanllawiau**

Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig sy’n gysylltiedig â Sylw i Gyngor a Chanllawiau yn gofyn i ddarparwyr roi sylw priodol i unrhyw gyngor neu ganllawiau a gyhoeddwyd gan Medr.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Sylw i Gyngor a Chanllawiau, yng nghyd-destun y set lawn o ddogfennau rheoleiddio?**

Mae’n ymddangos bod yr amod hwn yn briodol. Rydym yn croesawu’r egwyddor y bydd Medr yn darparu cyngor a chanllawiau atodol i ddarparwyr, lle bo’n briodol, ac yn credu y bydd hyn yn ei alluogi i ddylanwadu ar welliannau mewn meysydd blaenoriaeth mewn ffordd hyblyg ond cymesur.

Gallai Medr fod eisiau ystyried rhoi mwy o eglurder am beth yn union mae’r disgwyliadau ynghylch ‘rhowch sylw priodol’ yn ei olygu.

**Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad**

Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig sy’n gysylltiedig â Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad wedi defnyddio’r ddyletswydd a amlinellir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i gorff llywodraethol (neu gyfwerth) y darparwr, roi gwybodaeth a chymorth i Medr, a mynediad iddo at gyfleusterau, systemau ac offer y darparwr, fel y gallai Medr ofyn amdano yn rhesymol.

**A ellid cymhwyso’r amod hwn yn gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

**Gellid**

**A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

**Ydyn**

**A yw’r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

**Ydy**

**Trefniadau Dilysu**

Mae ein Hamod Cofrestru arfaethedig sy’n gysylltiedig â Threfniadau Dilysu wedi defnyddio’r ddyletswydd a amlinellir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i sicrhau eu hunain am ansawdd ac effeithiolrwydd unrhyw drefniadau dilysu sydd ar waith. Mae “trefniadau dilysu” yn golygu trefniadau rhwng y darparwr addysg drydyddol (neu gofrestredig) sy’n gwneud cais a darparwr addysg arall y mae’r darparwr addysg drydyddol sy’n gwneud cais yn dyfarnu cymhwyster oddi tano i fyfyriwr yn y darparwr arall neu’n awdurdodi’r darparwr arall i ddyfarnu cymhwyster ar ei ran.

**A ellid cymhwyso’r amod hwn yn gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

**Gellid**

**A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

**Ydyn**

**A yw’r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

**Ydy**

**Trefniadau Dilysu**

**I ba raddau ydych chi’n cytuno y gellid ymestyn amod y Trefniadau Dilysu (y diffinnir o dan y Ddeddf ei fod yn berthnasol i drefniadau dilysu yn unig) yn ddefnyddiol i gyngor neu ganllawiau ehangach ar gyfer partneriaethau trydyddol, yn cynnwys trefniadau is-gontractiol?**

**Cytuno**

**Rhowch sylwadau i gefnogi eich ymateb, yn cynnwys unrhyw enghreifftiau o effaith bosibl, cyfyngiadau neu ganlyniadau anfwriadol:**

**Statws Elusennol**

**Mae ein Hamod Cofrestru arfaethedig sy’n gysylltiedig â Statws Elusennol yn gofyn i bob un o’r darparwyr addysg uwch cofrestredig yn y Categori Craidd Addysg Uwch fod yn elusennau.**

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Statws Elusennol, yng nghyd-destun set lawn y dogfennau rheoleiddio?**

Mae Estyn yn croesawu cynnwys yr Amod Statws Elusennol sy’n pwysleisio pwysigrwydd tryloywder, atebolrwydd a chydymffurfio ar gyfer darparwyr sy’n elusennau cofrestredig. Mae’r gofyniad i gyrff llywodraethol ddeall a chyflawni eu dyletswyddau elusennol, yn cynnwys gweithredu’n gyfan gwbl er budd yr elusen, rheoli adnoddau’n gyfrifol a sicrhau

bod dibenion elusennol yn cael eu bodloni yn amddiffyniad angenrheidiol o fewn system drydyddol amrywiol. Mae'r disgwyliad fod darparwyr yn cynnal gwahaniad clir rhwng gweithgareddau elusennol a gweithgareddau nad ydynt yn rhai elusennol, ac yn dangos goruchwyliaeth briodol o is-gwmnïau a gweithrediadau masnachu, yn cyd-fynd ag arfer dda o ran llywodraethu ac yn cefnogi stiwardiaeth effeithiol o ran cyllid cyhoeddus.

I gryfhau eglurder ac effeithiolrwydd yr amod hwn, mae Estyn yn awgrymu y byddai mwy o fanylion yn fuddiol ynghylch sut bydd Medr yn asesu cydymffurfio yn ymarferol, yn enwedig mewn achosion lle mae darparwyr yn gweithredu o fewn strwythurau grŵp cymhleth neu'n dal nifer o endidau elusennol ac endidau nad ydynt yn rhai elusennol. Byddai canllawiau cliriach ar ddisgwyliadau tystiolaethol, er enghraifft, o ran cymhwysedd ymddiriedolwyr, gwrthdaro buddiannau, trefniadau dirprwyo mewnol a dyletswyddau adrodd yn cefnogi barn reoleiddio gyson. O fireinio'r Amod hwn yn y fath fodd, byddai'n darparu mecanwaith cryf a chymesur ar gyfer sicrhau bod darparwyr elusennol yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac yn cynnal safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd cyhoeddus.

**Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr**

Mae ein Hamod Cofrestru arfaethedig sy'n gysylltiedig â sylw i Wybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr yn gofyn bod y wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr yn cydymffurfio â chyfraith defnyddwyr, yn cynnwys unrhyw ganllawiau gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr, yng nghyd-destun set lawn y dogfennau rheoleiddio?**

Mae Estyn yn croesawu cynnwys Amod penodol sy'n gofyn i ddarparwyr roi sylw i ansawdd, cywirdeb ac eglurder gwybodaeth sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr. Mae sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am gyrsiau, gofynion mynediad, ymrwymiadau ariannol, hawliau cymorth a chyfleoedd dilyniant, yn hanfodol i hyrwyddo tegwch, ehangu cyfranogiad a chefnogi llwyddiant dysgwyr. Mae'r pwyslais a roddir ar wybodaeth dryloyw, hygyrch a dibynadwy cyn-contract yn cyd-fynd yn dda â chanfyddiadau arolygu Estyn, sy'n nodi bod darparu gwybodaeth o ansawdd uchel yn cyfrannu'n gadarnhaol at hyder, cadw ac ymgysylltiad dysgwyr. Mae'r gofyniad i ddarparwyr esbonio newidiadau perthnasol i gyrsiau neu ddarpariaeth, ac yn osgoi cyflwyno gwybodaeth gamarweiniol neu anghyflawn, yn gryfder arall y fframwaith arfaethedig.

I gryfhau'r amod hwn, mae Estyn yn ystyried y byddai mwy o eglurder yn fuddiol ynghylch sut mae Medr yn bwriadu asesu digonolrwydd a chywirdeb y wybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr. Yn ychwanegol, gallai fod yn fuddiol i Medr amlinellu sut bydd yn gwerthuso prosesau darparwyr ar gyfer adolygu, diweddaru a sicrhau gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd, a sut bydd adborth neu gŵynion dysgwyr yn llywio barn reoleiddio. O fireinio'r

Amod hwn yn y fath fodd, byddai'n cynnig ffordd gref a chymesur o sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn derbyn gwybodaeth gywir a chynhwysfawr sy'n ofynnol i wneud dewisiadau gwybodus am eu llwybr dysgu.

Yn aml, mae dysgwyr ag ADY a'u teuluoedd yn cael trafferth dod o hyd i wybodaeth glir a manwl am argaeledd cymorth, natur Medrau Byw yn Annibynnol (MBA) neu lwybrau sylfaen, trefniadau pontio o'r ysgol, a graddau darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. Heb hyn, ni all dysgwyr wneud penderfyniadau cwbl wybodus. Dylai'r amod ofyn i ddarparwyr ddarparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch gan ddefnyddio iaith glir, fformatau gweledol, fersiynau dwyieithog a deunyddiau sy'n cyfateb i dechnoleg gynorthwyol. Byddai cyfeirio at ble gall darpar ddysgwyr ofyn am gyngor, gofyn cwestiynau, neu gael manylion ychwanegol, yn sicrhau bod yr amod yn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus, yn lleihau risg cam-gyfleu, ac yn cyd-fynd ag amcanion ehangach Medr.

Yn yr un modd ag ar gyfer ADY, gallai dysgwyr neu ddarpar ddysgwyr mewn darparwr dysgu oedolion yn y gymuned fod â medrau llythrennedd neu ddigidol gwael neu efallai nad oes ganddynt fedrau Cymraeg neu Saesneg gweithredol. Bydd angen i ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned ystyried hyn gyda'r wybodaeth y maent yn ei darparu. Rydym yn atgyfnerthu bwriad Pwynt 4 (Atodiad B, tud. 123)

Rydym yn croesawu'r egwyddor y dylai'r holl wybodaeth fod yr un mor hygyrch yn Gymraeg ac yn glynu at Safonau'r Gymraeg.

**Terfynau Ffioedd**

Mae ein Hamod Cofrestru arfaethedig sy'n gysylltiedig â Therfynau Ffioedd yn gofyn i ddarparwyr cofrestredig yn y Categori Craidd Addysg Uwch gael datganiad terfynau ffioedd wedi'i gymeradwyo gan Medr ac i sicrhau nad yw ffioedd cyrsiau a reoleiddir yn mynd y tu hwnt i'r terfyn ffioedd perthnasol.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Terfyn Ffioedd, yng nghyd-destun set lawn y dogfennau rheoleiddio?**

**Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth**

Nod ein Hamod Cofrestru arfaethedig sy'n gysylltiedig â Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth yw bodloni'r gofyniad ar gyfer Amodau Cofrestru parhaus gorfodol sy'n gysylltiedig â chywirdeb gwybodaeth sy'n cael ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y Gofrestr, yn ogystal â hysbysu am newidiadau i statws trydyddol darparwr yng Nghymru.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr Amod Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth, yng nghyd-destun set lawn y dogfennau rheoleiddio?**

Mae Estyn yn croesawu cynnwys yr Amod “Hysbysu am Newidiadau sy’n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth”, sy’n sefydlu disgwyliad strwythuredig i ddarparwyr nodi, rheoli ac adrodd am newidiadau perthnasol a allai newid cywirdeb gwybodaeth a gyhoeddwyd neu wybodaeth a gyflenwyd yn y gorffennol. Mae’r amod hwn yn amddiffyniad pwysig ar gyfer dysgwyr a darpar ddysgwyr, gan ei fod yn sicrhau bod penderfyniadau am gyrsiau, dilyniant ac ymrwymiadau ariannol yn seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy a chyfoes. Mae’r gofyniad i gyrff llywodraethol gynnal goruchwyliaeth o brosesau rheoli newid, ac i ddarparwyr ystyried effaith y newidiadau ar hawliau dysgwyr, telerau cytundebol, a chydymffurfio â rheoleiddio, yn cyd-fynd ag egwyddorion sefydledig tryloywder, tegwch a diogelu dysgwyr ar draws y system addysg. Rydym yn croesawu llunio’r amod hwn fel mecanwaith sy’n helpu cynnal ymddiriedaeth a hyder yn y sector trydyddol yng Nghymru.

Mae Estyn yn ystyried y byddai’r amod yn gryfach o gael mwy o eglurder ynghylch beth mae ‘newid perthnasol’ yn ei olygu, a sut dylai darparwyr bennu pryd mae newid yn sbarduno rhwymedigaethau adrodd. O ystyried yr amrywiaeth yn y mathau o ddarparwyr a strwythurau cyrsiau, byddai canllawiau cliriach neu enghreifftiau eglurhaol yn cefnogi dehongli cyson ac yn lleihau ansicrwydd. Byddai hefyd yn fuddiol i’r fframwaith amlinellu disgwyliadau ar gyfer amseroldeb ac ansawdd cyfathrebu â dysgwyr, yn enwedig lle gallai newidiadau effeithio ar ddeilliannau dysgu, dull cyflwyno, trefniadau asesu neu ymrwymiadau ariannol. Hefyd, gallai’r fframwaith yn ddefnyddiol ddarparu mwy o fanylion ar sut bydd Medr yn asesu prosesau rheoli newidiadau darparwyr, yn cynnwys sut bydd adborth, cwynion a phryderon dysgwyr yn cael eu defnyddio i lywio barn reoleiddio. O fireinio’r Amod hwn yn y fath fodd, byddai’n cynnig mecanwaith cymesur ac effeithiol ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth sy’n cael ei darparu i ddysgwyr yn parhau i fod yn gywir, yn ddibynadwy ac yn ymatebol i newidiadau mewn darpariaeth neu amgylchiadau sefydliadol.

Mae ein tystiolaeth yn dangos bod dysgwyr ag ADY yn cael eu heffeithio’n anghymesur gan newidiadau annisgwyl mewn trefniadau darpariaeth, staffio, campws neu fodelau cyflwyno. Gall gwybodaeth anghywir neu wybodaeth sydd wedi dyddio, yn enwedig gwybodaeth yn ymwneud â chymorth arbenigol, hygyrchedd cyrsiau neu lwybrau ADY cyfrwng Cymraeg, danseilio gallu dysgwyr yn sylweddol i wneud dewisiadau priodol a chynnal parhad y dysgu.

Byddai’r amod yn elwa ar ofyn yn eglur i ddarparwyr hysbysu Medr pan mae newidiadau’n effeithio ar argaeledd neu gapasiti modelau cymorth a chyflwyno dysgwyr. Hefyd, dylai darparwyr sicrhau bod unrhyw wybodaeth wedi’i diweddaru yn cael ei chyfleu yn glir ac yn hygyrch i ddysgwyr, gan ddefnyddio fformatau priodol.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ynghylch yr Amodau Cofrestru? Nodwch at ba Amodau yr ydych chi’n cyfeirio yn eich ymateb:**

Croesewir y pwyslais ar ansawdd, lles, cyfranogiad dysgwyr a chydraddoldeb, at ei gilydd. Fodd bynnag, byddai’r amodau’n gryfach o roi cydnabyddiaeth gliriach i anghenion

dysgwyr ag ADY ac anghenion dysgu eraill y gwyddom eu bod yn profi darpariaeth amrywiol ar draws y sector.

Byddai sawl amod, gan gynnwys ansawdd, lles dysgwyr a staff, cyfle cyfartal, cynlluniau diogelu dysgwyr, gwybodaeth ar gyfer darpar ddysgwyr a hysbysu am newidiadau yn elwa ar ddisgwyliadau cliriach ynghylch hygyrchedd, addasiadau rhesymol, a pharhad cymorth arbenigol. Dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr fonitro anghenion dysgwyr a'u cyfraddau cadw, cyrhaeddiad a dilyniant. Dylid gofyn am wybodaeth mewn fformatau hygyrch, a dylai trefniadau llywodraethu sicrhau y creffir ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu a nodwyd.

Byddai cyfeiriad eglur at anghenion dysgwyr ar draws yr amodau yn gwella cysondeb, yn cryfhau'r drefn o ran diogelu dysgwyr, ac yn sicrhau profiadau teg ar draws pob darparwr trydyddol.

**Atodiad C: Fframwaith Ansawdd**

Mae hyn yn berthnasol i:

**<u>Bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant a ariennir a / neu gofrestredig yng Nghymru.</u>**

Mae'r Fframwaith Ansawdd yn darparu canllawiau a gwybodaeth am bolisi ac arfer yn ymwneud ag ansawdd addysg drydyddol, a bydd yn helpu darparwyr i ddangos sut maent yn bodloni'r amod.

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Fframwaith Ansawdd, yng nghyd-destun set lawn y dogfennau rheoleiddio?**

Rydym yn croesawu drafft y Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer y sector addysg drydyddol a'r ystyriaeth a roddwyd yn amlwg i'r adborth o'r ymgynghoriad cynharach. Mae strwythur cyffredinol y Fframwaith sy'n pwysleisio gwelliant parhaus, atebolrwydd darparwyr, darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac alinio rheoleiddio cydlynus, yn gyson ag egwyddorion allweddol y mae Estyn yn cydnabod eu bod yn ganolog i hyrwyddo safonau uchel ac ymdrechu am degwch ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae pileri amrywiol y Fframwaith, gan gynnwys ymgysylltiad dysgwyr, llais y dysgwr, ymgysylltiad cyrff llywodraethol, hunanwerthuso, allanoldeb, gwelliant parhaus a dysgu proffesiynol, yn darparu sylfaen ddefnyddiol ar gyfer asesu ansawdd. Mae'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn cyd-fynd yn dda ag ymagwedd Estyn at ansawdd ar draws sectorau, ar y cyfan.

Fodd bynnag, mae hepgoriadau nodedig o'r fframwaith. Yn ei hanfod, nid yw'r fframwaith yn cyfeirio at ansawdd addysgu a dysgu – y ffactor pwysicaf o fewn rheolaeth darparwr

sy'n dylanwadu ar ddeilliannau dysgwyr. Cyfeirir at 'ansawdd yr addysgu' unwaith o dan 'Cwmpas Ansawdd' ym mharagraff 19, ond ni chaiff ei ddatgelu wedyn yn yr hyn sy'n dilyn. Rydym yn meddwl y gallai ansawdd yr addysgu a'r dysgu fod yn amlwg o dan y pileri 'hunanwerthuso' ac 'allanoldeb' yn benodol. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gael safbwynt clir am ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws eu darpariaethau a'i effaith ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Credwn fod arsylwi addysgu a dysgu a darparu crynodeb allanol o hyn yn rhan bwysig a gwerthfawr iawn o'n proses arolygu a'i fod yn offeryn pwysig ar gyfer gyrru gwelliant a rhannu arfer orau ar draws y sectorau.

Mae'r wybodaeth ychwanegol o amgylch y pileri ymgysylltiad dysgwyr a llais y dysgwr yn hynod bwysig. Byddem yn annog cydweithio agos ar draws y sector i helpu cyd-lunio gwybodaeth a chynlluniau gweithredu manylach, gan gynnwys ymarferoldeb arolygon dysgwyr wedi'u cynllunio i leihau baich yn ogystal ag osgoi dyblygu a blinder gydag arolygon.

Dylai'r bwriad i alinio'r Fframwaith â gofynion rheoleiddio presennol (e.e. safonau'r Gymraeg, deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, mecanweithiau sicrhau ansawdd allanol) helpu lleihau baich ar ddarparwyr tra'n cynnal safonau cadarn. Mae'r dull cydlynus hwn yn hanfodol yn yr amgylchedd rheoleiddio ac ariannu cymhleth i osgoi gofynion yn gwrthdaro a/neu ddyblygu diangen.

Bydd effeithiolrwydd y Fframwaith yn dibynnu i raddau helaeth ar ba mor dda y caiff 'anghenion rhesymol' eu dehongli mewn cyd-destunau amrywiol, ac ar eu traws, p'un a yw'r drefn i sicrhau ansawdd allanol yn ddigon cadarn, p'un a yw llais y dysgwr ac ymgysylltiad dysgwyr yn cael ei ymgorffori'n ystyrlon, a ph'un a yw dysgu proffesiynol, ansawdd addysgu a dysgu ac ansawdd arweinyddiaeth yn cael eu blaenoriaethu ar draws y sector.

Byddai'n fuddiol ystyried datblygu a chyhoeddi canllawiau manylach neu enghreifftiau sy'n helpu darparwyr i ddehongli 'anghenion rhesymol', yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae gan ddysgwyr anghenion dysgu ychwanegol, yn dod o grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt neu sy'n elwa ar ddarpariaeth nad yw'n draddodiadol (gan gynnwys darpariaeth ran-amser a dysgu oedolion yn y gymuned.

Dylai'r Fframwaith bwysleisio'n gryf bwysigrwydd meithrin capasiti ymhlith staff addysgu a staff cymorth, gan sicrhau mynediad at ddysgu proffesiynol parhaus, ac ymgorffori ansawdd addysgegol fel amcan craidd. Efallai byddai Medr am gryfhau'r pwyslais ar sut gall y Fframwaith Ansawdd annog a chefnogi dysgu proffesiynol ac arfer dda ar draws y sector trydyddol, yn enwedig yn y meysydd / rhannau hynny lle mae darpariaeth wedi bod yn wan neu'n dameidiog yn y gorffennol.

Byddem hefyd yn annog Medr i fireinio a datblygu'r Fframwaith ymhellach trwy ddarparu canllawiau manylach, disgwyliadau clir ar gyfer mecanweithiau craffu a chymorth allanol ar gyfer darparwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithio gyda dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr traddodiadol neu drwy drefniadau is-gontractio / partneriaeth.

Mae tystiolaeth a gafwyd o'n hadroddiadau arolygu a'n hadroddiadau thematig yn dangos bod dysgwyr darpariaeth o ansawdd uchel sydd ag anghenion dysgu eang yn dibynnu ar addysgu hygyrch a chynhwysol, prosesau nodi clir, cymorth cydlynus, a monitro deilliannau dysgwyr yn gadarn. Mae'r elfennau hyn ymhlyg yn y fframwaith, ond nid ydynt wedi'u datgan yn glir. O ganlyniad, gallai darparwyr ddehongli disgwyliadau yn anghyson, a gallai materion ansawdd pwysig aros yn anweladwy o fewn hunanwerthuso.

Rydym yn cydnabod ac yn cytuno â phwysigrwydd y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg fel elfen annatod i'r fframwaith a bod y Gymraeg a dwyieithrwydd yn cael eu hymgorffori ym mhob un o'r pileri.

Er bod ymreolaeth a hunanwerthuso darparwyr yn werthfawr, heb graffu allanol annibynnol digonol, mae risg y gallai ansawdd amrywio'n sylweddol ar draws y sector trydyddol. Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gan ddulliau gwerthuso allanol (e.e. arolygiad neu adolygiad cyfnodol Estyn/QAA) ddigon o adnoddau a'u bob yn systematig, yn enwedig o ystyried amrywiaeth y sector trydyddol a'r ystod o ddulliau cyflwyno. Ar hyn y bryd, creffir ar rai sectorau yn fwy trylwyr na rhai eraill, gan roi gwerthusiadau allanol manylach i ddarparwyr. Yn benodol, nid yw dosbarthiadau chweched ysgolion yn cael eu gwerthuso'n ddigonol yn y system bresennol, gan fod adnoddau ar gyfer arolygiadau ysgolion yn canolbwyntio ar ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol. Rydyn wedi darparu opsiynau i Medr a fyddai'n caniatáu i ni ddarparu gwerthusiadau mwy trylwyr o ddosbarthiadau chweched yn rhan o arolygiadau ysgolion, yn amodol ar fod adnoddau ychwanegol ar gael.

Wrth gefnogi gweithredu'r fframwaith, mae Estyn mewn sefyllfa dda i gydweithio â Medr a rhanddeiliaid sector trwy rannu tystiolaeth arolygu ac arfer dda i gefnogi gweithredu cyfundrefn ansawdd gydlynus, dryloyw a theg ar draws addysg drydyddol yng Nghymru.

**Atodiad D – Cod Ymgysylltu â Dysgwyr**

Mae hyn yn berthnasol i:

**<u>Bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru</u>**

Mae Adran 129 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn gosod dyletswydd ar Medr i baratoi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ar gyfer rhan dysgwyr yn y broses o wneud penderfyniadau perthnasol gan eu darparwr.

**Cod Ymgysylltu â Dysgwyr**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn adlewyrchu ehangder y sector addysg drydyddol yn ddigonol, gan gynnwys y gwahanol gyd-destunau a gofynion?**

**Cytuno**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion arfaethedig ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr yn mynd i'r afael ag agweddau allweddol ar ymgysylltu â dysgwyr?**

**Cytuno**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y dull o fonitro yn glir a chymesur?**

**Cytuno**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno y byddai darparwyr yn gallu bodloni'r gofynion tystiolaeth arfaethedig heb faich gormodol?**

**Anghytuno**

**Rhowch sylwadau i gefnogi eich ymatebion:**

Mae'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr yn ddefnyddiol, er bod potensial i'w rhesymoli yn nifer lai o egwyddorion gan fod gorgyffwrdd o fewn egwyddorion 1-7. Efallai nad oes angen cynnwys y ddwy egwyddor olaf. Parthed: 'darparu adnoddau', mae wedi'i rhoi i gydymffurfio â'r egwyddorion eraill y byddai darparwr yn dyrannu adnodd i ymgysylltu â dysgwyr. Parthed: 'wedi gwerthuso', mae hunanwerthuso yn egwyddor ehangach ar gyfer pob darparwr sy'n berthnasol i bob agwedd ar ei waith, gan gynnwys ymgysylltu â dysgwyr. Bydd cael llai o egwyddorion yn symleiddio unrhyw weithgarwch cydymffurfio a monitro cysylltiedig.

Mae cydnabyddiaeth briodol bod rhaid i ymgysylltu addasu i ddysgwyr â gwahanol gyd-destunau (e.e. o bell, yn y gweithle). Mae egwyddorion y Cod yn addas o ran galluogi darparwyr i ymateb i hyn.

Er bod y Cod yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ymgysylltu â dysgwyr, mewn prentisiaethau, caiff y profiad dysgu ei ffurfio'n gryf gan y berthynas tair rhan cyflogwr-darparwr-dysgwr. Heb ymrwymiad cyflogwyr, gallai hyn gyfyngu ar allu prentisiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau. Er enghraifft, gallai ymgysylltu am eu baich gwaith, mentora yn y gweithle, neu ddulliau asesu ofyn am gyfranogiad cyflogwyr. Yn ein cylch arolygiadau craidd a gwblhawyd yn ddiweddar mewn prentisiaethau, un maes i'w wella sydd wedi ymddangos yn gyson fu'r graddau y mae cyflogwyr yn cymryd rhan yn nhaith ddysgu'r prentisiaid. Byddai'n ddefnyddiol ystyried y dylanwad a'r effaith y bydd cyflogwr yn eu cael ar y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ar gyfer prentisiaid, yn enwedig y rhai sydd yn y gwaith yn bennaf neu'n llawn.

Mae'r gofyniad i ddarpariaeth wedi'i his-gontractio gydymffurfio â'r Cod yn bwysig o ystyried cymhlethdod modelau cyflwyno prentisiaethau. Gallai hyn ddod hyd yn oed yn bwysicach yn dibynnu ar sut mae'r rownd gontractio / gomisiynu nesaf yn edrych o fis Medi 2027.

Mae strwythurau traddodiadol (cynghorau dysgwyr neu undebau myfyrwyr) yn anos i'w gweithredu mewn carfanau gwasgaredig, cymunedol neu rai wedi'u lleoli mewn cyflogwyr. Ni fydd llawer o ddysgwyr sy'n brentisiaid ar y campws nac yn cyfarfod â chyfoedion o gwbl. Byddai canllawiau / enghreifftiau i fynd i'r afael yn eglur â dulliau ymgysylltu ar-lein ac sy'n addas ar gyfer y gweithle (e.e. fforymau digidol, rhwydweithiau cyfoedion, arolygon ar ffonau symudol) yn ddefnyddiol cyn gynted ag y bo modd.

Gallai prentisiaid fod yn amharod i ddarparu adborth gonest os bydd yn peryglu tensiwn gyda'u cyflogwyr. Mae hyn yn golygu bod angen diogelu llais y dysgwr yn ofalus, a bod camau cysylltiedig sy'n dilyn yn sensitif ac yn gyfrinachol, lle bo'n briodol.

Nid yw'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn nodi ar hyn o bryd sut dylai darparwyr ymgysylltu â dysgwyr, yn hytrach na chanolbwyntio ar effaith dulliau'r darparwyr. Felly, a yw'r frawddeg hon yn cyfeirio at arolygon cenedlaethol o ddysgwyr (mewn datblygu)? Ac os felly, a fydd gofyniad gorfodol i bob darparwr ymgysylltu â nhw?

Mae llawer o'r pwyntiau a wnaed yn gysylltiedig â phrentisiaethau hefyd yn berthnasol i ddysgu oedolion yn y gymuned. Nid y lleiaf o hyn yw bod dysgwyr yn cael eu gwasgaru'n aml, ni fydd ganddynt gampws cyffredin y maent yn ei fynychu'n rheolaidd a byddant yn oedolion sy'n wynebu llawer o bwysau cystadleuol o ran eu hamser. Bydd gan rai ohonynt fedrau llythrennedd ac/neu ddigidol gwael hefyd, ac felly, efallai na fyddant yn gallu ymgysylltu mewn ffyrdd nodweddiadol. At ei gilydd, os edrychir ar y Cod Ymgysylltu yn y cyd-destun hwnnw, mae'n briodol mewn dysgu oedolion yn y gymuned.

O ran dysgwyr ag ADY, croesewir bwriad ac egwyddorion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Fodd bynnag, yn eu ffurf bresennol, ni fydd yr egwyddorion yn sicrhau'n ddigonol fod safbwyntiau dysgwyr ag anghenion dysgu amrywiol yn cael eu clywed, eu cynrychioli neu y gweithredir arnynt ar draws y sector trydyddol. Mae dysgwyr ag ADY yn ffurfio cyfran sylweddol o ddysgwyr addysg bellach, yn cynnwys llawer sy'n dibynnu ar gyfathrebu a gefnogir, addysgu arbenigol, neu arferion strwythuredig. Mae tystiolaeth arolygu a thystiolaeth thematig Estyn yn dangos bod systemau ymgysylltu â dysgwyr yn peryglu eithrio'r dysgwyr hyn yn systematig heb gynllunio eglur.

Anaml y mae dulliau traddodiadol yn cofnodi lleisiau dysgwyr ag anawsterau cyfathrebu, dysgwyr niwroamrywiol, dysgwyr ar lwybrau Medrau Byw yn Annibynnol, neu ddysgwyr sy'n profi gorbryder, anghenion synhwyraidd neu lefelau llythrennedd amrywiol. Byddai darparwyr yn elwa ar enghreifftiau sy'n dangos ymgysylltu cynhwysol—e.e. grwpiau ffocws Medrau Byw yn Annibynnol, offer adborth gweledol, ymgysylltu digidol hygyrch, neu sesiynau llais y dysgwr wedi'u hwyluso. Trwy gryfhau'r Cod yn y ffyrdd hyn, gall Medr sicrhau ei fod nid yn unig yn gosod cyfeiriad cadarnhaol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr yn

gyffredinol, ond hefyd yn creu system lle gall dysgwyr sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf gymryd rhan yn llawn a dylanwadu ar wneud penderfyniadau ar bob lefel.

Gallai egwyddor cynnwys dysgwyr wrth i ddarparwr wneud penderfyniadau, yn enwedig ynghylch darpariaeth, fod yn heriol, yn enwedig lle gellid cymryd bod 'methiant' darparwr i gynnig rhai cyrsiau yn awgrymu ei fod wedi methu. Dylid cydnabod y gallai fod amrywiaeth o resymau neu amgylchiadau dilys sy'n sail i'r penderfyniad i gynnig rhai rhaglenni ond pam nad yw rhaglenni eraill ar gael. Felly, byddai'n fuddiol pe bai dogfennau'n fwy arlliwedig i ystyried materion o'r fath.

O ran y Gymraeg, mae'r Cod yn cydnabod yn briodol fod angen i ddysgwyr allu dylanwadu ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn eu darparwyr, a'i gwerthuso, a'u bod yn gallu gwneud hynny'n ystyrlon trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Pa wybodaeth neu adnoddau ychwanegol allai gynorthwyo darparwyr i fodloni gofynion y Cod?**

Mae'r enghreifftiau yn y Cod yn ddefnyddiol, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae darparwyr addysg bellach ac addysg uwch yn cael lle blaenllaw yn yr enghreifftiau. Rydym yn argymell dull mwy cynhwysol ar gyfer enghreifftiau sy'n adlewyrchu'n decach ystod lawn y darparwyr trydyddol y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r Cod.

O ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned, byddai'n ddefnyddiol dangos a/neu gydnabod y ffyrdd niferus y gallai dysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned ymgysylltu, heb gymryd rhan mewn arolygon, ac ati, o reidrwydd.

Dylid nodi hefyd fod darparwyr mewn sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith, dysgu oedolion yn y gymuned ac ysgolion fel arfer yn cynnal arsylwadau gwersi a theithiau dysgu uniongyrchol fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso a gwella. Mae'r rhain yn rhoi cyfle uniongyrchol i ddysgwyr gael eu llais wedi'i glywed, a chyfle i ddarparwyr werthuso ar lefel un i un sut gallant wella profiadau dysgu ac ystyried safbwyntiau dysgwyr yn eu hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

Mae'n ymddangos bod rhagdybiaeth yn y Cod fod gwrando ar ddysgwyr fel arfer yn broses ar wahân (e.e. trwy gynghorau, undebau, grwpiau ffocws, arolygon neu gynrychiolaeth mewn cyfarfodydd staff), ond pan mae'n briodol, dylai hefyd ystyried arsylwadau addysgu a dysgu fel ffordd o gasglu adborth dynamig dysgwyr, a gweithredu arno.

O ran Prentisiaethau, byddai canllawiau / enghreifftiau i fynd i'r afael yn eglur â dulliau ymgysylltu ar-lein ac sy'n addas ar gyfer y gweithle (e.e. fforymau digidol, rhwydweithiau cyfoedion, arolygon ar ffonau symudol) yn ddefnyddiol cyn gynted ag y bo modd.

O ran ADY, byddai'n ddefnyddiol darparu canllawiau ymarferol ar ymgysylltu hygyrch a chynhwysol; modelau arfer effeithiol o ran llais y dysgwr; offer monitro cynrychiolaeth; deunyddiau sy'n gwbl hygyrch ar gyfer dysgwyr; canllawiau ar sicrhau bod llais dysgwyr ag

ADY ac anghenion dysgu ehangach yn gallu cael ei dderbyn a'i ddefnyddio gan lywodraethwyr; cyfatebiaeth â deddfwriaeth a fframweithiau ehangach, e.e. Deddf Anghenion Dysgu a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), Deddf Cydraddoldeb a dyletswyddau Cymraeg.

I sicrhau bod aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i helpu hwyluso proses ymgysylltu â dysgwyr a defnyddio hyrwyddwyr y Gymraeg a Llysgenhadon Myfyrwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, lle bo'n berthnasol, mae angen pennu adnoddau digonol ar gyfer cyfieithu, a dylid osgoi gorddibyniaeth ar Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) i gyfieithu heb systemau cadarn i brawfddarllen deunyddiau.

**Os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yn gysylltiedig â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, nodwch nhw yma:**

Dylai Cynnig y Gymraeg fod yn rhagweithiol ac nid dibynnu'n unig ar 'alw' gan ddysgwyr.

**Y Gymraeg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar effaith pob un o elfennau uchod y system reoleiddio arfaethedig ar y Gymraeg.

**Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau cadarnhaol neu negyddol tebygol ein cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Er bod y geiriad yn adlewyrchu deddfwriaeth, mae'r amod sy'n berthnasol i'r Gymraeg yn datgan bod rhaid i ddarparwyr gymryd pob cam rhesymol i hyrwyddo ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y darparwr. Mae'n anochel fod y prawf rhesymoldeb, hyd yn oed yn y gyfraith, yn oddrychol, o bryd i'w gilydd. Bydd rôl Medr a'r canllawiau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn hanfodol wrth sicrhau bod disgwyliadau'n ddigon uchelgeisiol. Nododd ein hadroddiad thematig diweddar ar hyfforddiant wedi'i anelu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau ôl-16 fod 'perthnasoedd gwaith cryf a chefnogol rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a cholegau a darparwyr unigol. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau'r Coleg yn ddigon cadarn i sicrhau bod trefniadau blaengynllunio, sicrhau ansawdd a monitro effaith hyfforddiant yn gyson ar draws darparwyr unigol ac yn genedlaethol.'

Croesewir yr ymrwymiad i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol. Rydym yn cytuno â'r angen i gynyddu niferoedd y bobl ifanc sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc yn y sector ôl-16. Mae'r cyfeiriadau at wella'r ddarpariaeth a hyrwyddo addysg ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, cynyddu cyfranogiad, galluogi

llwybrau di-dor ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, yn gadarnhaol. Yn rhy aml, bydd pobl ifanc sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg yn 16 oed yn mynychu cyrsiau cyfrwng Saesneg mewn sefydliadau trydyddol ac yn colli eu medrau iaith neu'u hyder. Mae'r angen i gynyddu asesu trwy gyfrwng y Gymraeg yn elfen bwysig ym mharhad medrau Cymraeg.

Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at symud dysgwyr ar hyd y continwwm medrau Cymraeg a'r ffaith fod y Gymraeg yn fedr gydol oes. Mae angen i sylw ganolbwyntio ar ymdrechion i symud staff a dysgwyr i fyny'r pyramid iaith / ar hyd y continwwm iaith mewn modd strategol, ac fel yr amlygodd yr adroddiad a enwyd eisoes, mae angen '..cynnig rhagor o her ac arweiniad i golegau a darparwyr prentisiaethau wrth werthuso effaith hyfforddiant ar y gweithlu gan flaengynllunio'n fwriadus i symud arferion addysgu a'r cynnig i fyfyrwyr a phrentisiaid i fyny'r pyramid iaith (o B3 i B2 ac i fyny). Yn gyffredinol, er bod llawer o sefydliadau yn teimlo eu bod yn cydweithio'n dda â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, dim ond mwyafrif sy'n teimlo eu bod yn atebol i'r Coleg o ran allbynnau. Byddai llawer ohonynt yn croesawu rhagor o graffu ar eu gwaith wrth iddynt gynllunio a mesur effaith hyfforddi ar allu ieithyddol ac addysgeg ddwyieithog eu staff. Ar y cyfan, nid yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn craffu'n ddigon manwl ar dargedau a thystiolaeth ac nid oes diwylliant priodol o herio a chwestiynu penderfyniadau'r colegau a darparwyr'.

Felly, mae'n hanfodol bod unrhyw system reoleiddio newydd yn osgoi'r materion uchod ac yn canolbwyntio'n glir ar nodau strategol pwrpasol a sefydlu diwylliant o hunanwerthuso gonest a her allanol ar draws pob sector. Rydym yn cytuno bod gwahanol fannau cychwyn gan wahanol sectorau. Roedd ein hadroddiad diweddar ar fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn dysgu oedolion yn y gymuned yn gwerthuso darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg ac yn amlygu'r materion sy'n wynebu'r Gymraeg mewn darpariaeth medrau sylfaenol, gan gynnwys y ffaith fod y sector Dysgu Cymraeg o dan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig darpariaeth sy'n targedu medrau llythrennedd. Mae ein hadroddiad arolygu ar Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 2025 yn tynnu sylw at gymorth llythrennedd targedig effeithiol a chynyddol gyffredin y sector i wella medrau Cymraeg cyflogeion o fewn cyd-destunau proffesiynol. Felly, rydym yn croesawu'r cyfeiriad at y ffaith fod rhaid i Strategaeth Gymraeg y darparwr fod yn glir am sut byddant yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fel y bydd y Ganolfan Genedlaethol yn cael ei hadnabod ar ôl dod yn gorff statudol o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

I dyfu niferoedd y prentisiaid sy'n defnyddio ac yn gwella'u medrau Cymraeg, dylai'r cynnig i astudio'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei wneud yn rhagweithiol gan ddarparwyr a pheidio â dibynnu ar ddarpar brentisiaid sy'n gofyn amdano. Dylai'r gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg gael ei gydnabod a'i hyrwyddo fel medr gwerthfawr sy'n ychwanegu gwerth at ragolygon cyflogaeth prentisiaid. Gall hefyd ddarparu pwynt gwerthu unigryw iddynt os byddant yn penderfynu dod yn hunangyflogedig, gan eu galluogi i farchnata eu hunain i gwsmeriaid sy'n dymuno dewis masnachwyr sy'n siarad Cymraeg, lle bo modd.

Ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned, dylai'r ffocws fod ar gynnig darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno defnyddio'u medrau iaith tra'n dysgu. Nid yw'n eglur ynglŷn â gwella lefelau eu Cymraeg ond defnyddio'r iaith yn eu cymuned fel iaith y rhyngweithio yn y dosbarth. Ni ddylai'r ffocws fod ar asesu.

Mae rôl partneriaeth mewn darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn bwysig, hefyd. Pan mae darpariaeth yn fwyaf effeithiol, dyma ble mae partneriaethau'n cysylltu â sefydliadau lleol a grwpiau cymunedol, fel Menter Iaith, - sydd eisoes yn darparu cyfleoedd dysgu yn Gymraeg yn eu cymunedau.

Mae hefyd yn werth tynnu sylw at y ffaith fod Estyn yn trin Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Chymraeg i Oedolion yn ddau faes darpariaeth ar wahân. Nid yw'r olaf o'r rhain, wrth gwrs, yn dod o dan gylch gwaith Medr, ond caiff y ddau ohonynt eu drysu yn aml. Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg fel iaith dysgu a rhyngweithio; mae Cymraeg i Oedolion ynglŷn â dysgu a gwella eich medrau Cymraeg. Wrth gwrs, mae gorgyffwrdd rhwng darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Chymraeg i Oedolion.

Mae ein tystiolaeth yn dangos bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag ADY yn gyfyngedig ac yn anghyfartal, yn enwedig ar gyfer Medrau Byw yn Annibynnol a chymorth arbenigol. Gallai disgwyliad cyffredinol roi pwysau ar ddarparwyr nad oes ganddynt y capasiti staffio neu'r capasiti arbenigol i ehangu cymorth cyfrwng Cymraeg yn gyflym. Dylai'r canllawiau gydnabod yr heriau staffio arbenigol sy'n unigryw i ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg a gosod disgwyliadau cymesur ar draws mathau o ddarparwyr i annog darparwyr i ddatblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg hygyrch.

At ei gilydd, mae'r gofynion cydymffurfio a'r atodiadau yn ymddangos yn gadarn ac mae ganddynt y potensial i yrru ymddygiad a newid mewn modd cadarnhaol.

**A oes unrhyw ystyriaethau eraill i ni eu hystyried, fel na fyddai ein cynigion yn cael effeithiau niweidiol, neu a fyddent yn lleihau effeithiau niweidiol ar: gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Byddai darparu offer ar gyfer ymgysylltiad hygyrch gan ddysgwyr cyfrwng Cymraeg – gan gynnwys fformatau sy'n hawdd i'w darllen, fformatau sy'n cael eu cefnogi gan symbolau a fformatau digidol yn cryfhau cyfranogiad ac yn helpu sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

**Effaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar effaith pob elfen o'r system reoleiddio arfaethedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015?**

**Cytuno**

**Rhowch fanylion:**

Bydd graddau'r cyfraniad yn dibynnu ar y graddau y mae gweithredu yn gwneud cynhwysiant a diwallu anghenion dysgu dysgwyr yn eglur ar draws amodau, yn sicrhau cymesuroldeb ac yn hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng Medr, Estyn, QAA, darparwyr, dysgwyr a phartneriaid.

Bydd y cynigion, os cânt eu gweithredu'n gyson, yn cael eu gwerthuso'n drylwyr ac yn cael eu rheoleiddio'n glir trwy'r mecanweithiau cydymffurfio, yn cyfrannu'n werthfawr at y nod llesiant: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Efallai byddai Medr eisiau ystyried sut mae'n cysylltu disgwyliadau clir ar draws y fframwaith rheoleiddio o amgylch cydweithio â sefydliadau trydyddol eraill i rannu arfer neu ddatblygu darpariaeth a rennir.

**Effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar effaith pob un o elfennau'r system reoleiddio arfaethedig ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i:**

**Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?**

**Ydyn**

**Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu?**

**Ydyn**

**Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu?**

**Ydyn**

**Lleihau anghydraddoldebau mewn deilliannau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?**

**Yn rhannol.** Gellid cryfhau’r agwedd hon drwyddi draw. Rydym hefyd wedi nodi’n benodol ble gellir cryfhau disgwyliadau sy’n gysylltiedig â dysgwyr ag ADY.

**Os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar effaith y rheoliadau arfaethedig ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, nodwch:**

Mae tystiolaeth arolygu ac adolygiadau thematig Estyn yn dangos bod deilliannau cadarnhaol dysgwyr yn cael eu cyflawni gyda disgwyliadau clir ar gyfer darpariaeth ADY a diwallu anghenion amrywiol dysgwyr. Mae’r rheoliadau’n darparu cyfle i sicrhau bod cynllunio cwricwlwm hygyrch ac addysgegau cynhwysol yn ddisgwyliadau craidd sy’n cydnabod pwysigrwydd parhad ar gyfer dysgwyr sy’n pontio ar draws sectorau.

O ganlyniad, mae gan y cynigion y potensial i wella ansawdd, cysondeb a thegwch ar gyfer dysgwyr ag anghenion amrywiol. Bydd y graddau y mae’r rheoliadau a’r disgwyliadau yn glir ac yn strategol ac wir yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr yn hanfodol i bennu eu heffaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.